

Memorandwm Cyd- ddealltwriaeth

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a
Diogelwch (HSE)**

Cyflwyniad.....	4
Rolau a chyfrifoldebau.....	4
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).....	4
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)	5
Egwyddorion cydweithredu	7
Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd	7
Cyfnewid Gwybodaeth.....	7
Ymchwilio i ddigwyddiadau	8
Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy (Effaith Genedlaethol)	9
Cydweithio strategol a chefnogi gwelliant	9
Cydgysylltu ar gyfer digwyddiadau unigol.....	9
Cyfeirio pryderon at gyrff proffesiynol	9
Materion trawsffiniol (e.e. comisiynu).....	10
Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau	10
Llywodraethu	10
Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu	11
Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth.....	12
Atodiad B – Manylion Cyswllt	13
Atodiad C – Adroddiadau IR(ME)R / IRR	14
Atodiad D – Siart Llif Pryderon a Gorfodi	16
Atodiad E – Datganiad Rheolyddion Data ar y Cyd Erthygl 26 GDPR	17

Hanes adolygu a chymeradwyo

Fersiwn	1
Dyddiad y'i cytunwyd	04/04/2016
Cytunwyd yn ffurfiol gan	AGIC: Kate Chamberlain HSE: Samantha Peace
Fersiwn	2
Dyddiad y'i cytunwyd	01/07/2019
Cytunwyd yn ffurfiol gan	AGIC: Kate Chamberlain HSE: Samantha Peace
Fersiwn	3
Dyddiad y'i crëwyd	17/11/2020
Awduron	AGIC: Joseph Wilton HSE: Matthew Hamar
Dyddiad y'i cytunwyd	01/04/2021
Cytunwyd yn ffurfiol gan	AGIC: Alun Jones HSE: Samantha Peace
Dyddiad adolygu	01/04/2022

Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith er mwyn cefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).
2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r gwaith o gynnal system reoleiddio effeithiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru a Lloegr, sy'n hybu diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.
3. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ond yn berthnasol i'r gwaith o reoleiddio gofal iechyd yng Nghymru. Nid yw'n drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC na HSE ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; ei ddiben yw diffinio'r cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a nodi camau gweithredu cyffredin.
4. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn disgrifio'r ffordd y bydd AGIC a HSE yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gwelliant yn ansawdd y gofal. Mae'n ymdrin â risgiau i ofal ac iechyd a diogelwch cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â safleoedd gofal iechyd perthnasol.
5. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir llunio cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio). Bydd y cyfryw gytundebau yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

Rolau a chyfrifoldebau

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

6. AGIC yw arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru ac mae'n rheoleiddiwr ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
 - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
 - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
 - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
 - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
 - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008;
 - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.
7. Nod AGIC yw:

- Rhoi sicrwydd: Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal.
 - Hybu gwelliant: Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da
 - Dylanwadu ar bolisi a safonau: Defnyddio'r hyn y mae'n ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer
8. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru i sicrhau bod cleifion, y cyhoedd ac eraill yn cael gofal diogel ac effeithiol sy'n cyrraedd safonau cydnabyddedig. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.
 9. Fel rhan o'i gweithgarwch arolygu ac adolygu, bydd AGIC yn bwrw golwg dros bolisïau, gweithdrefnau a chofnodion archwilio'r darparwyr gofal iechyd yn rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddigwyddiadau a hyfforddiant gorfodol perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch. Yn ogystal â hyn, bydd AGIC yn edrych ar yr amgylchedd, gan wneud yn siŵr ei fod yn addas ar gyfer rhoi gofal diogel i'r cleifion ac yn amgylchedd gwaith diogel i'r staff.
 10. Mae gan AGIC hefyd rôl mewn perthynas â [marwolaethau mewn carchardai](#). Mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ymchwilio i bob marwolaeth sy'n digwydd mewn carchar. Mae AGIC yn cyfrannu at yr ymchwiliadau hyn drwy gynnal adolygiad clinigol o bob marwolaeth mewn Carchar neu Safle Cymeradwy yng Nghymru. Caiff y trefniant hwn ei ddiffinio mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Ombwdsmon ac AGIC.
 11. Mae AGIC hefyd yn gweithredu fel [Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl](#). Mae hyn yn golygu cadw golwg ar y defnydd a wneir o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a chadarnhau y caiff ei defnyddio'n gywir ar ran Gweinidogion Cymru.
 12. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio [darparwyr gofal iechyd annibynnol](#) o dan [Ddeddf Safonau Gofal 2000](#). [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#) sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath. Mae hyn yn rhoi pwerau rheoleiddio i AGIC mewn perthynas â materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch cleifion. Mae AGIC yn arolygu amrywiaeth o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, megis ysbytai, deintyddion a chlinigau¹.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

13. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn awdurdod gorfodi sy'n gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch yn y gwaith ym Mhrydain Fawr ac fe'i

¹ Gweler [gwefan AGIC](#) am ragor o wybodaeth

sefydlwyd gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Mae HSE yn gorff cyhoeddus anadrannol â statws y Goron, a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac sy'n atebol i'w gweinidogion.

14. Mae HSE hefyd yn ymchwilio i ddigwyddiadau a phryderon ynghylch arferion iechyd a diogelwch ac yn datblygu deddfwriaeth iechyd a diogelwch a chodau ymarfer newydd neu ddiwygiedig.
15. Mae HSE yn rheoleiddio iechyd a diogelwch mewn amrywiaeth o sectorau a diwydiannau gan gynnwys safleoedd lle y ceir peryglon mawr megis safleoedd nwy ar y môr, gosodiadau olew a gweithfeydd cemegion ar y tir a hefyd safleoedd mwy confensiynol, chwareli, ffermydd, ffatrioedd, safleoedd rheoli gwastraff ac ysbytai. Mae HSE a'r Awdurdod Lleol yn cydroleiddio iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol preifat neu gyhoeddus ym Mhrydain Fawr. Mae HSE yn archwilio, yn ymchwilio a, lle y bo angen, yn cymryd camau gorfodi. Mae HSE yn rheoleiddio gofal nyrsio preswyl a darpariaeth Awdurdodau Lleol (ALLau).
16. Er mwyn galluogi HSE i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd agored a thryloyw, mae pob un o'r gweithdrefnau y mae'n gweithio yn unol â nhw, ynghyd â'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau mewnol cysylltiedig, ar gael i'r cyhoedd ar ei [wefan](#).
17. Fel rhan o'r Gweithdrefnau Ymchwilio Gweithredol, mae HSE yn defnyddio [meini prawf dewis digwyddiadau](#) cyhoeddedig i ddewis pa ddigwyddiadau y dylid eu dewis er mwyn i arolygydd ymchwilio iddynt.
18. Mae gan HSE [bolisi ar orfodi adran 3 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle etc 1974](#) ynghylch p'un a ddylid ymchwilio i ddamweiniau penodol unigolion nad ydynt yn gyflogeion (e.e. cleifion) ai peidio a chanllawiau cysylltiedig ar [flaenoriaethau ar gyfer gorfodi adran 3](#), sy'n cynnwys enghreifftiau o sefyllfaoedd sy'n cwmpasu amrywiaeth o sectorau diwydiant, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn helpu i wneud penderfyniadau.
19. Mae'r canllawiau yn nodi'r canlynol:
 - Nid yw HSE, **fel arfer**, yn ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â barn glinigol na materion sy'n ymwneud â lefel y gofal a ddarperir. Mae deddfwriaeth arall a chyrrff rheoleiddio eraill yn ymdrin â'r materion hyn. Mae enghreifftiau o 'ddarparu gofal' yn cynnwys sefyllfaoedd lle y nodir mai hydradu gwael, maeth gwael neu ddatblygiad briwiau pwysu oedd prif achos marwolaeth.
20. Yng Nghymru, mae HSE yn ymdrin â'r risgiau anghlinigol mawr i gleifion megis baglu a chwmpo, sgaldio, diogelwch trydanol ac ati; ac â rhai agweddau ar risgiau sy'n berthnasol i staff a chleifion fel ei gilydd, megis codi a chario. Fel arfer, hysbysir HSE am ddigwyddiadau o'r fath o dan [Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 \(RIDDOR\)](#), ac mae HSE yn dilyn ei [feini prawf dewis digwyddiadau](#) cyhoeddedig wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i ddigwyddiad. Mae enghreifftiau o bynciau iechyd a diogelwch i'w gweld [yma](#). Mae rhagor o wybodaeth am rôl HSE yn y gwaith o ymchwilio i

ddigwyddiadau yn ymwneud â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau i'w gweld [yma](#).

21. Mae HSE wedi llunio a chyhoeddi [Datganiad ar Bolisi Gorfodi](#) sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol y disgwylir i staff HSE, arolygwyr yn bennaf, eu dilyn a'r dull gweithredu y disgwylir iddynt ei fabwysiadu wrth wneud penderfyniadau ynghylch gorfodi. Mae'r Datganiad ar Bolisi Gorfodi yn ymdrin â meysydd megis diben gorfodi a'r dull gorfodi, egwyddorion gorfodi, ymchwilio, erlyn a marwolaeth yn y gwaith.
22. Nodir [dyletswyddau cyflogwyr](#) a phwerau HSE yn [Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974](#) a'i darpariaethau statudol perthnasol. Mae [adran 20 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974](#) yn nodi pwerau arolygwyr.
23. Os oes tystiolaeth o gydymffurfiaeth wael neu niwed difrifol (syn bodloni ei feini prawf dewis) gall HSE arfer ei bwerau rheoleiddio gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau gorfodi ac erlyn unigolion neu gyrff corfforaethol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan HSE yn: <http://www.hse.gov.uk/enforce/enforcement.htm>.

Egwyddorion cydweithredu

24. Mae AGIC a HSE yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio â'i gilydd.
25. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC a HSE yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:
 - gwneud penderfyniadau sy'n hybu gofal iechyd o ansawdd da ac sy'n diogelu ac yn hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion a gweithwyr;
 - bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
 - parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall;
 - defnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynw a rhannu gwybodaeth yn briodol;
 - cynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad.
26. Mae AGIC a HSE hefyd yn ymrwymedig i reoleiddio tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'i dargedu (sef egwyddorion rheoleiddio gwell).

Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd

Cyfnewid Gwybodaeth

27. Bydd cydweithio rhwng AGIC a HSE yn aml yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd disgwyl cyfnewid gwybodaeth yn yr achosion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- lle mae naill ai AGIC neu HSE yn nodi pryderon am iechyd a llesiant y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â risgiau i ofal ac iechyd a diogelwch cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â safleoedd gofal iechyd perthnasol.
- os bydd digwyddiad mewn lleoliad gofal iechyd lle y nodir bod risg i ddiogelwch cleifion
- os caiff achos o glefyd trosglwyddadwy ei ganfod yn lleoliad darparwr gofal iechyd
- lle y byddai ymateb amlasiantaeth sydd wedi'i gydlynu yn fuddiol er mwyn lleddfu pryder.

28. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a chaiff y wybodaeth ei rhannu'n gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl. Caiff y manylion cyswllt yn **Atodiad B** eu defnyddio i godi a rhannu pryderon.

29. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw brotocol gweithio ar y cyd a all gael ei ddatblygu, yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003; adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; Deddf Safonau Gofal 2000 a holl ddeddfwriaeth AGIC a HSE sy'n ymwneud â'r materion hyn, a'u Codau Ymarfer, eu fframweithiau neu eu polisïau priodol eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion gwybodaeth. Gweler **Atodiad E**.

Ymchwilio i ddigwyddiadau

30. Yn achos marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, yr heddlu sydd ag uchafiaeth yn yr ymchwiliad i ddechrau yn unol â'r [Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith \(WRDP\)](#) a'r [Canllaw Ymarferol](#) cysylltiedig. Yr heddlu/Gwasanaeth Eryl yn Goron sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau penodol a'u herlyn. Mae hyn yn cynnwys dynladdiad unigol neu gorfforaethol, camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol ac yn ymestyn i achosion o ddwyn mewn achos o gam-drin. Bydd AGIC neu HSE yn hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau o'r fath ac yn gweithio gyda nhw yn unol â'r Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

31. Os bydd angen trosglwyddo'r uchafiaeth dros ymchwilio i farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith neu niwed difrifol o'r heddlu, penderfynir ai AGIC neu HSE a fydd yn cael yr uchafiaeth dros yr ymchwiliad. Darperir y siart lif yn **Atodiad D** er mwyn helpu i wneud penderfyniadau o'r fath.

32. Mae **Atodiad A** yn nodi'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng AGIC a HSE er mwyn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a chydweithio'n effeithiol.

Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy (Effaith Genedlaethol)

33. Yn y GIG, gall fod gan AGIC a HSE rôl yn y gwaith o wella safonau i weithwyr a chleifion. Gall AGIC sicrhau gwelliannau drwy gynnal arolygiadau a llunio adroddiadau ar gyfer Byrddau Iechyd. Gall HSE sicrhau gwelliannau drwy waith arolygu / ymchwilio a gorfodi.
34. Ym maes Gofal Iechyd Annibynnol, mae gan AGIC hefyd [bwerau rheoleiddio](#) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac mae'n bosibl mai AGIC sydd yn y sefyllfa orau i reoleiddio iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â chleifion. Lle y gall gweithredoedd cyflogaion effeithio ar ddiogelwch a llesiant cleifion (e.e. rheoli heintiau / cadw pellter cymdeithasol / cyfarpar diogelu personol), gall y rheoliadau hyn roi pwerau digonol i'w gwneud yn ofynnol sicrhau gwelliannau i arferion gwaith a chymhwysedd gweithwyr. Dylai'r ddau sefydliad gydgyssylltu yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn er mwyn helpu i benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i arwain.

Cydweithio strategol a chefnogi gwelliant

35. Bydd AGIC a HSE yn ystyried yr amgylchiadau pan mai cydweithio â'i gilydd yw'r ffordd orau o gyflawni eu hamcanion. Bydd y naill sefydliad yn ystyried y llall wrth gynllunio ei raglenni gwaith a nodi unrhyw bosibiliadau ar gyfer cydweithio.
36. Gallant, drwy gytundeb, gynnal arolygiad neu ymchwiliad neu wneud gwaith arall ar y cyd. Drwy gydol gwaith o'r fath, bydd AGIC a HSE yn cadw eu pwerau statudol eu hunain ac yn gweithredu yn unol â nhw. Gall y gwaith hwn gynnwys adolygiadau ar y cyd, ymweliadau â safleoedd a chydgyssylltu unrhyw waith dilynol i gynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion.

Cydgysylltu ar gyfer digwyddiadau unigol

37. Os bydd ansicrwydd ynglŷn ag awdurdodaeth bydd y sefydliadau perthnasol yn gwneud y canlynol:
- penderfynu pwy ddylai fod â'r uchafiaeth dros unrhyw gamau gweithredu a ph'un a fyddant yn gweithredu ar y cyd neu ochr yn ochr â'i gilydd;
 - cadw cofnod o'r penderfyniad hwn a chytuno ar feini prawf adolygu, os yw'n briodol;
 - dynodi cysylltiadau priodol ym mhob sefydliad er mwyn sefydlu a chynnal unrhyw ddeialog angenrheidiol tra bydd y cam gweithredu yn cael ei gymryd;
 - hysbysu deiliaid dyletswydd/darparwyr, dioddefwyr a pherthnasau priodol yn unol â hynny.

Cyfeirio pryderon at gyrff proffesiynol

38. Mae gan AGIC a HSE Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â rhai cyrff proffesiynol. Os na fydd gan HSE Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith, bydd HSE yn cydgysylltu, lle y bo'n briodol, ag AGIC er mwyn cael cyngor ar gyswllt perthnasol o fewn y corff proffesiynol perthnasol.

Materion trawsffiniol (e.e. comisiynu)

39. Mae HSE yn rheoleiddiwr ym Mhrydain Fawr ac nid yw'n ddarostyngedig i gyfyngiadau ffiniau rhwng Cymru a gweddill Prydain Fawr. Mae a wnelo cylch gwaith AGIC â Chymru. Lle y caiff gofal ei gomisiynu o Loegr neu'r Alban i wasanaethau yng Nghymru, bydd angen i HSE/AGIC gydgyssylltu â'r rheoleiddiwr priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chomisiynu. Yn yr un modd, lle y caiff gofal ei gomisiynu o Gymru i Loegr neu'r Alban ac mae gan HSE neu AGIC wybodaeth am gydymffurfiaeth neu safonau gwael, bydd angen i bob sefydliad gydgyssylltu â'r rheoleiddiwr priodol er mwyn rhannu gwybodaeth lle y bo'n briodol.

Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

40. Bydd AGIC a HSE yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.
41. Bydd AGIC a HSE yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.
42. Bydd AGIC a HSE yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac ni fyddant yn ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Llywodraethu

43. Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a HSE. Disgrifir y cyswllt hwn, ac unrhyw waith mewn partneriaeth, yn **Atodiad A**.
44. Dylid cynnal cyfarfodydd rhwng cydweithwyr perthnasol yn y ddau sefydliad i drafod gwybodaeth, polisiâu a materion gweithredol sydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad pan fo'n briodol; o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Ceir manylion cyswllt perthnasol ar lefel weithredol y ddau sefydliad yn **Atodiad B**.
45. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a HSE ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn **Atodiad B**, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiaid sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

46. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn **Atodiad B**. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.
47. Nid oes terfyn amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid yr egwyddorion a ddisgrifiwyd neu os byddant yn amherthnasol bellach. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

Llofnodwyd



Alun Jones

Prif Weithredwr Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 7 Ebrill 2021



Samantha Peace

Cyfarwyddwr Gweithrediadau Maes
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a
Diogelwch

Dyddiad: 29 Mawrth 2021

Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC a HSE.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd:

Mae AGIC yn cynnal Uwchgynhadledd Gofal Iechyd bob chwe mis, sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am bob Bwrdd Iechyd. Mae cyfranogwyr yn cynnwys rheoleiddwyr proffesiynol, cyrff perfformiad a'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae HSE yn aelod gweithredol o'r Uwchgynhadledd hon a gall gyflwyno ei ganfyddiadau i AGIC a'r cyfranogwyr eraill.

Er y caiff pryderon a digwyddiadau unigol eu rhannu wrth iddynt godi, caiff themâu a phryderon cyffredinol am fyrdau iechyd neu ddarpariaeth gofal ledled Cymru eu codi a'u trafod â'r rhai sy'n bresennol yn yr Uwchgynhadledd.

Gweithgareddau ymgysylltu rheolaidd

Rhwng pob Cynhadledd Gofal Iechyd bydd cynrychiolwyr o AGIC a HSE yn cyfarfod, fel y bo'n briodol, er mwyn trafod unrhyw faterion neu bryderon penodol sydd ganddynt sy'n ymwneud â lleoliadau neu ddigwyddiadau penodol. Bydd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth am bryderon neu ddigwyddiadau penodol sy'n berthnasol i'r sefydliad arall
- Hwyluso'r broses o gydgyllunio gweithgarwch arolygu, ymchwilio ac adolygu
- Trafod unrhyw ddigwyddiadau a godwyd gan y naill sefydliad neu'r llall

Rhoi gwybod am ddigwyddiadau

Mae'n bosibl y bydd y ddau sefydliad yn canfod methiannau sydd y tu hwnt i'w cylch gwaith rheoleiddio. Caiff y digwyddiadau hyn eu codi fel pryder â'r sefydliad dan sylw drwy'r trefniadau a ddisgrifir yn Atodiad B.

Bydd HSE yn cyfeirio digwyddiadau ac achosion unigol perthnasol at AGIC a chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio fel rhan o broses AGIC o gasglu gwybodaeth a llywio proffil risg lleoliadau a byrdau iechyd unigol.

Atodiad B – Manylion Cyswllt

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8163

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Tîm Partneriaeth Ymgysylltu Cymru
Tŷ William Morgan,
6 Sgwâr Canolog,

Caerdydd,
CF10 1FS
Ffôn: 020 3028 2260

Pryderon

Ar gyfer digwyddiadau penodol lle y nodwyd bod **rîsg uniongyrchol** a lle mae gan AGIC bwerau rheoleiddio, dylid cysylltu'n uniongyrchol â'r tîm Pryderon, a fydd yn trosglwyddo'r digwyddiad i'r 'Rheolwr Cydberthnasau' neu'r Pennaeth Gofal Iechyd Annibynnol priodol.

HIW.Concerns@gov.wales

Ffôn: 0300 062 8163

Ar gyfer digwyddiadau penodol lle mae **rîsg uniongyrchol** wedi'i nodi yn ardaloedd yr ALLau canlynol a phan mai HSE yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer iechyd a diogelwch, efallai y bydd angen cysylltu'n uniongyrchol â Phrif Arolygwyr EM ar gyfer yr ardaloedd daearyddol perthnasol.

Gogledd Cymru (Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn, Powys)

Cysylltwch â HSE Wrecsam: Ffôn: 0203 028 5080

De-orllewin Cymru (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf)
Cysylltwch â HSE Caerdydd: Ffôn: 0203 028 2260

De-ddwyrain Cymru (Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Torfaen, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Sir Fynwy)

Cysylltwch â HSE Caerdydd: Ffôn: 0203 028 2260

Neu cwblhewch [ffurflen gais ar-lein](#)

Gwybodaeth

Ar gyfer pryderon arferol a nodir gan HSE lle nad oes **unrhyw rîsg uniongyrchol** i ddiogelwch cleifion, a phan gaiff y pryderon eu rhannu er mwyn llywio gwaith AGIC i fonitro gwasanaethau iechyd, cysylltwch â:

Y Tîm Gwybodaeth

HIW.PIM@gov.wales

Ar gyfer pryderon arferol a nodir gan AGIC lle nad oes **unrhyw rîsg uniongyrchol** a phan mai HSE yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer iechyd a diogelwch, cysylltwch â:

Y Tîm Pryderon

Ffôn: 0300 0031647

neu cwblhewch [ffurflen gais ar-lein](#)

Fel arall, gellir cyfeirio ymholiadau mwy cyffredinol at:

HSECymruWales@hse.gov.uk

Atodiad C – Adroddiadau IR(ME)R / IRR

Set Ddata	Sefydliad Arweiniol	Disgrifiad	Amllder / Amseriad
Adroddiadau ar Ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag IR(ME)R	AGIC	Cyflwynir adroddiadau ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag IR(ME)R i Lywodraeth Cymru	Dim ond os yw'r digwyddiad yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch a/neu faterion sy'n ymwneud ag IRR17 y dylid cysylltu â HSE
Adroddiadau ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag IRR17	HSE	Cyflwynir adroddiadau ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag IRR17 i HSE mewn perthynas â chyflogeion a/neu unigolion eraill nad ydynt wedi cael archwiliad meddygol	Dim ond os yw'r digwyddiad yn ymwneud â methiant cyfarpar meddygol neu amlygiad claf y dylid cysylltu â HSE
Ffurflenni Hunanasesu IR(ME)R / IRR	AGIC	Os yw'r meysydd sy'n destun pryder yn sgil hunanasesiadau a gwblhawyd yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch a/neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag IRR17	Dylid cysylltu â HSE ar ôl i'r hunanasesiad wedi'i gwblhau gael ei ddychwelyd
Adborth ar Archwiliad IR(ME)R	AGIC	Os yw'r meysydd sy'n destun pryder yn dilyn ymweliadau safle yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch a/neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag IRR17	Dylid cysylltu â HSE yn dilyn yr ymweliad safle
Adborth ar Archwiliad	HSE	Os yw'r meysydd sy'n destun pryder yn dilyn ymweliadau safle yn ymwneud ag	Dylid cysylltu ag AGIC yn dilyn yr


Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: AGIC a HSE

IRR17		IR(MER), methiant cyfarpar meddygol a/neu ansawdd a diogelwch gofal iechyd yng Nghymru	ymweliad safle
-------	--	----------------------------------------------------------------------------------------	----------------

Cyswllt HSE: irnot@hse.gov.uk

Cyswllt AGIC: IRMERIncidents@gov.wales

Atodiad D – Siart Lif Pryderon a Gorfodi



Atodiad E – Datganiad Rheolyddion Data ar y Cyd Erthygl 26 GDPR

Diben

1. Diben yr atodiad hwn yw esbonio'r priod rolau y bydd AGIC a HSE yn eu cyflawni wrth reoli'r ffordd y caiff data personol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau difrifol eu prosesu. Ystyrir bod AGIC a HSE yn rheolyddion ar y cyd ar gyfer y data a gesglir, gan fod y naill a'r llall (yn annibynnol) yn penderfynu sut y caiff data personol eu prosesu, ac at ba ddiben, fel rhan o'r swyddogaethau a ddiffinnir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ehangach hwn.

Diogelu Data

2. Bydd AGIC a HSE yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol Deddf Diogelu Data 2018 (a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data). Bydd AGIC a HSE yn gweithredu fel rheolyddion data ar y cyd mewn perthynas ag unrhyw ddata personol yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn; dim ond i'r graddau a ddiffinnir yn y fframwaith rheoleiddio perthnasol y byddant yn prosesu data personol o'r fath.
3. Ni fydd AGIC na HSE yn trosglwyddo unrhyw ddata personol y maent yn eu prosesu y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, oni bai bod mesurau diogelu cyfreithiol priodol ar waith, megis Privacy Shield neu Gymalau Contract Enghreifftiol.
4. Bydd AGIC a HSE yn sicrhau eu bod wedi rhoi gweithdrefnau technegol a sefydliadol priodol ar waith i ddiogelu unrhyw ddata personol y byddant yn eu prosesu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw brosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, a diogelu rhag unrhyw achosion damweiniol o ddatgelu, colli, dinistrio neu ddifrodi data. Bydd AGIC yn rhoi gwybod i HSE, a bydd HSE yn rhoi gwybod i AGIC, yn brydlon am unrhyw brosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu achosion damweiniol o ddatgelu, colli, dinistrio neu ddifrodi unrhyw ddata personol o'r fath. Bydd y naill a'r llall hefyd yn cymryd camau rhesymol i sicrhau ei bod yn addas i'w staff gael mynediad at ddata personol o'r fath.

Cyfrifoldebau Penodol AGIC

5. Mae gan AGIC y cyfrifoldebau penodol canlynol:
 - i. Cynnal unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw elfen o newid i fusnes neu broses.
 - ii. Dilyn Canllawiau Diogelwch Data AGIC er mwyn sicrhau y caiff y mesurau angenrheidiol eu rhoi ar waith i ddiogelu data personol.
 - iii. Sicrhau y caiff staff AGIC hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio a diogelu data personol a dilyn prosesau cymeradwy ar gyfer trin data.
 - iv. Sicrhau bod gan staff AGIC y cliriad diogelwch priodol i drin gwybodaeth personol a gasglwyd fel rhan o'r broses hon.
 - v. Trosglwyddo data personol yn ddiogel i HSE fel y bo angen er mwyn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio HSE.
 - vi. Ymateb i Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun yn ôl y gofyn.

- vii. Rhoi gwybod i Swyddog Diogelu Data AGIC a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Ile y bo'n briodol) am unrhyw achosion o dor diogelwch data o fewn AGIC.
- viii. Cynnal unrhyw gofnodion prosesu Erthygl 30 ar gyfer data a ddelir ar systemau AGIC.

Cyfrifoldebau Penodol HSE

6. Mae gan HSE y cyfrifoldebau penodol canlynol:

- i. Cynnal unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw elfen o newid i fusnes neu broses.
- ii. Dilyn Canllawiau Diogelwch Data HSE er mwyn sicrhau y caiff y mesurau angenrheidiol eu rhoi ar waith i ddiogelu data personol.
- iii. Sicrhau y caiff staff HSE hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio a diogelu data personol a dilyn prosesau cymeradwy ar gyfer trin data.
- iv. Sicrhau bod gan staff HSE y cliriad diogelwch priodol i drin gwybodaeth bersonol a gasglwyd fel rhan o'r broses hon.
- v. Ymateb i Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun yn ôl y gofyn mewn perthynas â data personol a gaiff eu prosesu fel rhan o'r swyddogaeth reoleiddio
- vi. Rhoi gwybod i Swyddog Diogelu Data HSE a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Ile y bo'n briodol) am unrhyw achosion o dor diogelwch data o fewn HSE
- vii. Cynnal unrhyw gofnodion prosesu Erthygl 30 ar gyfer data a ddelir ar systemau HSE.

Hawliau Unigolion

7. Mae GDPR yn pennu hawliau newydd i unigolion dros y ffordd y caiff eu data eu prosesu. Mae'r hawliau hyn, a'r broses y dylai unigolyn ei dilyn wrth wneud cais, wedi'u rhestru yn hysbysiad preifatrwydd AGIC a HSE. Dylai'r naill a'r llall sicrhau eu bod yn cyfeirio at eu priod bolisiau preifatrwydd ac yn cydymffurfio'n llawn â nhw os bydd Testun Data yn arfer unrhyw un o'i hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data.
8. Mewn ymateb i unrhyw gais am fynediad at ddata gan y testun, bydd AGIC neu HSE yn cynnal chwiliad cymesur a rhesymol ac yn ymateb o fewn mis i'r cais gwreiddiol.

Tor diogelwch data

9. Mae AGIC yn gyfrifol am roi gwybod i'w Swyddog Diogelu Data ac i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Ile y bo'n briodol) am unrhyw achosion o dor diogelwch data o fewn ei hawdurdod. Bydd AGIC hefyd yn rhoi gwybod i HSE am yr achos os bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar ei staff neu fudd ehangach.
10. Mae HSE yn gyfrifol am roi gwybod i'w Swyddog Diogelu Data ac i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Ile y bo'n briodol) am unrhyw achosion o dor diogelwch

data o fewn ei awdurdod, a hefyd i AGIC os bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar ei staff neu fudd ehangach.

11. Rhoddir gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achos o dor diogelwch data personol fel y'i diffiniwyd gan Erthygl 4(12) o GDPR sy'n bodloni'r meini prawf trothwy perthnasol o fewn 72 awr i gael gwybod amdano. Bydd hyn yn cynnwys hysbysu'r testun data yr effeithir arno os bydd yr amgylchiadau'n galw am hynny. Y Swyddog Diogelu Data priodol (gweler isod) fydd yn gyfrifol am hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Gweithredol.
12. Os bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi cosbau ariannol i barti mewn perthynas ag unrhyw ddata a broseswyd o dan y cytundeb hwn ac os mai un parti, ym marn y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am y ffaith bod y cosbau hynny wedi cael eu rhoi, y parti hwnnw ddylai fod yn gyfrifol am dalu'r cosbau a roddwyd.
13. Os na fydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn mynegi barn o ran pwy sy'n gyfrifol, yna dylai'r naill barti a'r llall dalu hanner y gosb a roddwyd.
14. Os bydd AGIC neu HSE yn ddiffynnydd mewn hawliad cyfreithiol gerbron llys sydd ag awdurdodaeth gymwys gan drydydd parti mewn perthynas â data a broseswyd o dan y cytundeb hwn, y parti sy'n gyfrifol am y difrod yn ôl penderfyniad terfynol y llys fydd yn gyfrifol am dalu'r colledion yr eir iddynt o ganlyniad i'r cyfryw ddifrod. Os bydd y ddau barti'n gyfrifol, caiff yr atebolrwydd ei rannu rhwng y partïon yn unol â phenderfyniad y llys. Os na fydd y llys yn pennu sut y dylid rhannu'r atebolrwydd rhwng y partïon, dylai'r naill barti a'r llall fod yn gyfrifol am dalu hanner y gosb a roddwyd, oni all un ohonynt brofi nad yw'n gyfrifol am y digwyddiad a arweiniodd at y difrod o gwbl.
15. Nid yw darpariaethau'r cymal hwn yn atal y partïon rhag dod i gytundeb ynghylch sut y dylid rhannu'r cyfrifoldeb ariannol am unrhyw golledion, hawliadau am gostau neu dreuliau sy'n deillio o brosesu data o dan y cytundeb hwn.

Cadw data

16. Bydd AGIC a HSE yn cadw data personol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau difrifol yn unol â'u priod bolisiau gwaredu data. Mae'r naill barti a'r llall yn gyfrifol am sicrhau bod swyddogaethau technegol a gweithdrefnol priodol ar waith er mwyn sicrhau y caiff data personol eu dinistrio mewn modd diogel ac amserol.

Datgelu Gwybodaeth

17. Mae'n bosibl y caiff y naill barti neu'r llall yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gais am wybodaeth gan aelod o'r cyhoedd neu unrhyw berson arall o dan yr amrwyol ddeddfwriaeth datgelu gwybodaeth (Rheoliad Cyffredinol yr UE ar

Ddiogelu Data 2016/679 (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac ati).

18. Yn y pen draw, y parti a gaiff unrhyw gais am wybodaeth sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch datgelu'r wybodaeth honno. Caiff pob cais am wybodaeth ei ystyried fesul achos, a rhaid i'r holl achosion o ddatgelu gwybodaeth sy'n deillio o hynny fod yn gyfreithlon. Y sefyllfa ddiodyn i'r ddau barti yw datgelu'r wybodaeth oni bai bod un neu fwy o eithriadau absoliwt (fel y'u diffiniwyd gan y ddeddfwriaeth briodol) yn gymwys i gais penodol. Os bydd y parti a gaiff y cais yn dymuno cymhwyso eithriad amodol (fel y'i diffiniwyd gan y ddeddfwriaeth briodol) at gais cyfan neu ran ohono, rhaid iddo sicrhau y caiff hyn ei ddilysu gan brawf lles y cyhoedd wedi'i ddogfennu.
19. Os bydd parti'n cael cais am wybodaeth a gyflenwyd gan y parti arall ("y cyflenwr gwybodaeth"), bydd y parti a gafodd y cais am wybodaeth yn ymgynghori â'r cyflenwr gwybodaeth cyn gynted â phosibl a chyn i unrhyw wybodaeth gael ei datgelu mewn ymateb i'r cais er mwyn sicrhau bod digon o amser i safbwyntiau'r cyflenwr gwybodaeth, gan gynnwys unrhyw wrthwynebiadau i ddatgelu'r wybodaeth, gael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid datgelu'r wybodaeth ai peidio.
20. Os bydd parti'n cael cais am wybodaeth sydd ganddo a'i fod yn gwybod neu'n credu bod y wybodaeth gan y parti arall, bydd y parti a gafodd y cais yn ymgynghori â'r parti arall cyn gynted â phosibl a chyn i unrhyw wybodaeth gael ei datgelu mewn ymateb i'r cais. Diben yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau bod y parti a gafodd y cais yn gallu rhannu unrhyw bryderon am wybodaeth a allai gael ei datgelu i'r sawl a wnaeth y cais, bod y parti sy'n dal y wybodaeth yn gallu ystyried y pryderon hynny'n llawn wrth wneud penderfyniadau, a bod y parti'n yn gallu cydgyssylltu'r ffordd y maent yn trin ceisiadau.

Swyddogion Diogelu Data

Manylion cyswllt Swyddogion Diogelu Data'r Rheolyddion Data ar y Cyd yw:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru Parc Busnes Rhydycar Merthyr Tudful CF48 1UZ E-bost:	Swyddog Diogelu Data Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 1.3 Redgrave Court Merton Road, Bootle Liverpool L20 7HS

SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

E-bost:

Data.Protection@hse.gov.uk